# EUR(2) 03-04(p01)

# Pwyllgor Materion Ewropeaidd Ac Allanol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 25 Mawrth 2004 |
| Amser: | 09:00 |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd |
| Teitl: | Crynodeb o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn dilyn trafodaethau ynghylch diwygio polisi rhanbarthol |

## Pwrpas

1. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn y trafodaethau ynghylch diwygio polisi rhanbarthol yn yr UE yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2003, 13 Tachwedd 2003 a 26 Chwefror 2004.

## Gweithredu

2. Gwahoddir yr aelodau i ystyried cynnwys y papur hwn, y gellir ei osod ar yr amserlen i'w drafod yn fanylach yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar ôl y Pasg.

## Y Cefndir

3. Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol wedi cynnal tair trafodaeth fanwl ar ddiwygio polisi rhanbarthol:

- 26 Mehefin 2003 - Cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Trafodwyd ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddiwygio gyda John Neve a Neil Bond, yr Adran Masnach a Diwydiant a Mark Parkinson, Trysorlys ei Mawrhydi.
- 13 Tachwedd 2003 - Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mrwsel. Trafodwyd cynigion posibl y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch diwygio gyda Graham Meadows Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro, Polisi Rhanbarthol - y Comisiwn Ewropeaidd a Dimitrij Pur, Cenhadaeth Gweriniaeth Slofenia i'r Undeb Ewropeaidd.

- 26 Chwefror 2004 - Cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Trafodwyd cynigion y Comisiwn a Llywodraeth y DU gyda Manfred Beschel, y Comisiwn Ewropeaidd - Chef de l'Unité, DG Regio C1 - Iwerddon a'r Deyrnas Unedig; John Neve a Neil Bond, Yr Adran Masnach a Diwydiant a Mark Parkinson, Trysorlys ei Mawrhydi

4. Yn dilyn y cyfarfod ar 26 Mehefin gwnaeth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ymateb ar y cyd i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddiwygio polisi rhanbarthol. Mae copi o'r ymateb wedi'i amgáu yn Atodiad A.

## Materion Allweddol

5. Mae'r pwyntiau allweddol a godwyd yn y tri chyfarfod wedi eu nodi yn y paragraffau canlynol. Yn fyr, ymddengys mai'r prif faterion oedd:

- Nid yw'n bosibl mesur goblygiadau ariannol cynigion Llywodraeth y DU a'r Comisiwn ar gyfer Cymru ar hyn o bryd.
- Bydd y trafodaethau ar gyllideb gyffredinol yr UE yn cael effaith arwyddocaol ar yr arian oedd ar gael ar gyfer polisi rhanbarthol.
- Yr oedd pryderon ynghylch hirhoedledd gwarant Llywodraeth y DU
- Ar hyn o bryd dim ond gan gynnig y Comisiwn y rhoddir cymorth i ranbarthau yr effeithir arnynt yn ystadegol, sef y categori y mae'n debygol y rhoddir Cymru ynddo (Gofynnwyd i Lywodraeth y DU gadarnhau ei safbwynt mewn perthynas â'r mater)
- Mae cynnig Llywodraeth y DU yn seiliedig ar ei dymuniad i gadw cyfraniad net y DU i'r gyllideb Ewropeaidd i'r isafswm. Nid yw hyn, o reidrwydd, yn golygu lleihad yn y gefnogaeth a roddir i Gymru gan fod Llywodraeth y DU yn bwriadu datblygu rhaglen genedlaethol gyfatebol ar gfyer cymorth rhanbarthol.
- Mae polisi rhanbarthol ar lefel Ewropeaidd yn darparu buddiannau ehangach sydd y tu hwnt i gymorth ariannol. Mae'r cyfle i rannu profiadau a meithrin perthynas yn rhai o brif rhagoriaethau'r system bresennol
- Rhaid lleihau'r biwrocratiaeth a sicrhau bod y rhaglenni yn fwy hyblyg
- Cefnogir y ffaith bod y ddau gynnig yn canolbwyntio ar Agenda Lisbon ac ar greu swyddi
- Mae'r gallu i gefnogi prosiectau seilwaith yn bwysig
- Mae denu digon o arian i mewn o'r sector preifat yn her.
- Mae dyfodol cymorth gwladol yn fater perthnasol, ac arwyddocaol.

6. Materion allweddol o'r cyfarfod ar 26 Chwefror:

- Croesawyd y ffaith bod mwy o gefnogaeth ar gyfer prosiectau seilwaith megis band eang, seilwaith twristiaeth ac adfywio canol trefi.
- Er gwaethaf y ffaith y cafwyd rhywfaint o welliant, yr oedd yn parhau i fod yn waith anodd i

ddenu arian o'r sector preifat yng Nghymru. Mynegwyd pryderon ynghylch o ble y byddai'r arian cyfatebol yn dod pe bai'r sefyllfa economaidd yn gwaethygu yn y dyfodol.

- Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch ymrwymiad Llywodraeth y DU i bolisi rhanbarthol. Ymatebodd yr Adran Masnach a Diwydiant drwy gyfeirio at amcan y Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus a bennwyd ar y cyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Yr Adran Masnach a Diwydiant a Thrysorlys ei Mawrhydi i gael twf yn y rhanbarthau.
- Yr oedd ansicrwydd yn parhau ynghylch lefel yr arian y byddai Cymru yn manteisio arni o dan y ddau gynnig.
- Mynegwyd pryder ynghylch yr awgrymiadau y byddai cynnydd yn y cyfraniad net i gyllideb yr UE yn golygu llai o arian ar gyfer gwariant domestig ac o ganlyniad byddai'r arian a roddir i Gymru yn lleihau.
- Nodwyd gan yr Aelodau nad oedd San Steffan yn gallu cynnig gwarant am yr un cyfnod â'r Comisiwn. Yr oedd datganoli hefyd yn golygu bod posibilrwydd y gellir torri gwarant y Llywodraeth ddwy waith yn y dyfodol, ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Nodwyd hefyd y gallai ffactorau megis gwariant o ganlyniad i'r rhyfel yn Irac effeithio ar gyllideb ddomestig y DU.
- Yr oedd Llywodraeth y DU wedi dweud bod ariannu gan yr UE yn un o fanteision ychwanegol polisi rhanbarthol. Teimlwyd bod hyn yn groes i'w bwyslais ar yr effaith yr oedd yn ei gael ar gyllideb y DU.
- Yr oedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn gwybod sut y byddai hyn yn effeithio ar weithrediad Cymhorthion y Wladwriaeth yn y dyfodol.
- Teimlwyd bod gan Gymru rywbeth i'w roi i Ewrop yn ogystal â derbyn arian oddi wrtho.
- Trafodwyd y broses o ddiffinio rhanbarthau NUTS 2 a ffiniau rhanbarthol ynghyd â’r cwmpas i’w newid yn y dyfodol. Dywedodd y Comisiwn mai’r Aelod-Wladwriaethau oedd yn gyfrifol am bennu’r rhanbarthau oedd o fewn ffiniau’r meini prawf ystadegol.
- Mynegwyd siom gan yr aelodau bod y ffaith bod Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar yr Aelod-Wladwriaethau newydd yn golygu nad oedd yn rhoi cymaint o sylw i anghenion yr Aelod-Wladwriaethau presennol, yn enwedig o ystyried bod yr adroddiad ar gydlyniant yn dangos cryn dipyn o wahaniaethau rhwng rhanbarthau'r DU. Yr oedd y DU yn rhoi 1.6 Ewro i gyllideb yr UE am bob 1 Ewro a oedd yn dod i law, felly ar hyn o bryd nid oedd sefyllfa'r gyllideb yn ffafriol i’r DU.
- Gofynnwyd hefyd a fyddai gwarant Llywodraeth y DU yn cynnwys hyd at 85% o'r arian ar gyfer rhanbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu - ni chyfeiriwyd at hyn yn natganiad y Gweinidog ar 11 Rhagfyr. Hefyd wedi'i gynnwys yn yr ymateb i'r Pwyllgor ar 19 Rhagfyr yr oedd datganiadau gwrthgyferbyniol ynghylch y trefniadau ariannu arfaethedig a rôl fformiwla Barnett, ac a fyddai unrhyw ychwanegiadau ariannol yn ychwanegol i fformiwla Barnett. Pe bai'r arian yn cael ei gynnwys mewn grantiau bloc ni fyddai'n parchu anghenion Cymru. Dywedodd Mark Parkinson y byddai Trysorlys Ei Mawrhydi yn seilio ei gyfrifiad ar y meini prawf cymhwyso presennol ond ar sail UE 25, a phe bai’r ffigurau'n cyfiawnhau hynny byddai arian ychwanegol yn cael ei roi i'r grant bloc.
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth bellach am safbwynt Llywodraeth y DU o ran a fyddai'n cydnabod y cysyniad o ranbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu ai peidio neu a fyddai'n cyflwyno cynnig uniongyrchol am ryddhad trosiannol.

- Nododd Prif Weinidog Cymru pe byddai'r DU a'r Aelod-Wladwriaethau eraill wedi llwyddo i gyfyngu ar lefel CMC yr UE i 0.1 y cant mai ychydig iawn o arian fyddai ar ôl ar gyfer polisïau rhanbarthol ar ôl ariannu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

7. Materion allweddol o'r cyfarfod ar 13 Tachwedd:

- Mynegwyd diddordeb yn y lefel o gymorth ariannol y gallai Cymru ei ddisgwyl o dan y system newydd
- Mynegwyd pryder ynghylch deinameg y trafodaethau rhwng Aelod-Wladwriaethau ynghylch rhanbarthau y mae ystadegau wedi effeithio arnynt ac ynghylch pwy fyddai'n eu hyrwyddo. Ni fyddai gan lawer o Aelod-Wladwriaethau presennol ddiddordeb oherwydd nad oedd eu rhanbarthau yn gymwys ar hyn o bryd ac ni fyddai'r rhan fwyaf o ddarpar aelod-wladwriaethau yn dod yn rhan o'r categori hwn hyd 2010.

8. Materion allweddol o'r cyfarfod ar 26 Mehefin:

- Nid oedd yr union ffigurau ar gyfer cost y cynigion yn glir ar hyn o bryd, ond yr oedd yr effaith bosibl ar gyfraniad net y DU i gyllideb yr UE yn un o'r materion allweddol oedd yn dylanwadu ar safbwynt y DU o ran trafodaethau.
- Mynegwyd pryder bod gwarant ariannol Llywodraeth y DU yn amodol ar fod yr UE yn derbyn eu cynigion. Pe bai cynigion gwahanol yn cael eu derbyn byddai angen cytuno ar drefniadau ariannol gwahanol.

- Teimlwyd yng Nghymru ar hyn o bryd bod aliniad cryfach rhwng polisi domestig a chronfeydd strwythurol yr UE o'i gymharu â Lloegr a golyga hyn nad oedd rhai o'r rhwystredigaethau ynghylch polisïau'r Comisiwn y cyfeiriwyd atynt gan Lywodraeth y DU wedi dod i'r amlwg yng Nghymru.
- Efallai y byddai busnesau Cymru yn cefnogi ailwladoli oherwydd eu bod yn gweld y ffocws presennol yn gwyro oddi wrth drafnidiaeth a seilwaith, adeiladau a safleoedd. Ond roedd pryderon y dylai cynigion y DU barhau i gefnogi polisïau eraill ar gyfer mentrau cymunedol yng Nghymru.
- Hefyd gwnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhai cynghorau lleol fynegi pryderon ynghylch a fyddai cynigion Llywodraeth y DU yn helpu i leihau'r bwlch rhwng economi de-ddwyrain Lloegr ac economi Cymru.

- Roedd pryder ynghylch diogelwch y rhaglen: hyd yn oed pe bai'r cyllid dros 3 neu 5 mlynedd, byddai mewn perygl oherwydd ffactorau gwleidyddol megis newid polisi neu newid llywodraeth, yn wahanol i'r rhaglenni saith mlynedd sydd wedi'u gwarantu o dan system yr UE.
- Roedd cwestiynau yn codi ynghylch pwy fyddai'n datblygu polisi rhanbarthol o dan y trefniant arfaethedig a phryderon ynghylch a fyddai ailwladoli yn arwain at fwy o ganoli gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar lefel Cymru gyfan yn hytrach nag ar lefel leol.

- Roedd pryderon am sut y byddai meincnodi yn bosibl o dan y trefniadau arfaethedig. Trwy'r system bresennol, roedd modd gwneud cymariaethau ar draws yr Aelod-Wladwriaethau, ond gallai hyn fod yn anoddach gydag Aelod-Wladwriaethau yn gweithredu gwahanol systemau.

- Byddai angen diwygio'r Cymorth Gwladol ac roedd pryderon amdanynt.

- Mynegwyd pryder, er bod y cynigion ar y cyd, mai un o'r prif ysgogwyr oedd pryderon y Trysorlys i leihau'r baich ariannol ar y DU.

- Roedd pryder na fyddai trefniant y fformiwla Barnett o angenrheidrwydd yn ddigon hyblyg i ddelio â thaliadau o dan y system hon.
- Daeth y rhaglen Cronfeydd Strwythurol bresennol â manteision i ryngweithiad a chysylltiadau Cymru ag Ewrop a gallai'r rhain fod mewn perygl o dan y cynigion, am nad oeddent yn gwneud achos clir am yr un manteision.

Man cyswllt

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau